

CYNGOR GWYNEDD - CRONFA BENTHYCIAD CANOL TREFI GWYNEDD - TAFLEN WYBODAETH

Adran Economi a Chymuned

Gellir derbyn ffurflenni cais drwy gysylltu â Tîm Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd ar 01286 679231 neu drwy e-bost: busnes@gwynedd.llyw.cymru - rhaid i bob darpar ymgeisydd gysylltu â'r Tîm Cefnogi Busnes er mwyn trafod ei gynnig cyn cyflwyno cais.

CYMHWYSEDD

Mae'r gronfa ar gael i berchnogion eiddo wedi'u lleoli yng nghanol trefi Caernarfon, Blaenau Ffestiniog, Porthmadog, Pwllheli, Bethesda, Llanberis, Penygroes, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Cricieth, Y Bala, Abersoch, Dolgellau, Abermaw, Tywyn, Beddgelert, Harlech, Aberdaron, Aberdyfi, a chanol dinas Bangor.

Pwrpas y benthyciad yw gwella'r eiddo ar gyfer perchnogaeth barhaol, i'w werthu, i'w osod, neu i wneud defnydd o safle gwag. Gall gwelliannau gynnwys gwneud eiddo preswyl yn saff, yn gynnes a / neu ei ddiogelu. Ni chaniateir defnyddio'r benthyciad i ad-dalu benthyciadau eraill.

GWYBODAETH BELLACH

Lleiafswm gwerth benthyciad yw £5000.

Nid oes llog yn daladwy ar y benthyciadau. Bydd angen talu un ffi weinyddol o hyd at 15% ar gyfer costau cyfreithiol a gweinyddol, ac ar gyfer y ffactor risg.

Y cyfnod hiraf a geir i ad-dalu'r benthyciad yw 5 mlynedd. Gellir ad-dalu'r benthyciad yn rheolaidd bob mis neu bob chwarter; ar derfyn y cyfnod benthyc, neu pan fydd yr eiddo'n cael ei werthu os digwydd hyn yn gynharach.

Rhaid i eiddo mewn perchnogaeth landlord sector preifat fod yn rhydd o beryglon dosbarth 1 (System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai).

Os yn berthnasol, bydd pob cais yn derbyn asesiad ariannol ac yn cael ei werthuso gan ymgynghorwyr ariannol annibynnol wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd.

Bydd angen cefnogi'r cais gyda'r wybodaeth a restrir ar y Ffurflen Gais.

Mae angen arwystl cyfreithiol dros yr eiddo i sicrhau'r benthyciad, a chael prisiad proffesiynol ohono.

Gellir defnyddio cronfeydd ariannol eraill ar y cyd â'r benthyciad, cyn belled eu bod yn ariannu gwaith gwahanol.

Bydd ymgeiswyr sydd â'r gallu i sicrhau benthyciad masnachol i ariannu'r gwelliannau yn cael eu cyfeirio at ffynonellau perthnasol eraill.

Gall ceisiadau fod yn amodol ar reoliadau Cymorth Gwladol ac rydym yn neilltuo'r hawl i ofyn am ragor o wybodaeth ynglŷn â hyn.

Mewn achosion ble mae pwrpas y benthyciad yn cynnwys neu'n ymwneud â darparu gwasanaethau neu ddeunyddiau ysgrifenedig (yn cynnwys arwyddion), rhaid i'r deunydd fod yn y Gymraeg a'r Saesneg, os nad yw'n afresymol neu'n anghymesur gwneud hynny.

Bydd penderfyniad Panel y Gronfa Fenthyciadau yn derfynol.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

